



Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

2014 dccc 3

Nodiadau Esboniadol

Control of Horses (Wales) Act 2014

2014 anaw 3

Explanatory Notes

£5.75

DEDDF RHEOLI CEFFYLAU (CYMRU) 2014

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r nodiadau esboniadol hyn ar gyfer Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Rhagfyr 2013 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Lluniwyd hwy gan Adran Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf, ond nid ydynt yn rhan ohoni.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 - Trosolwg

2. Mae'r adran hon yn crynhoi'r hyn y mae'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdodau lleol ei wneud pan fo ceffylau mewn mannau cyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon, neu ar dir arall heb ganiatâd meddiannydd y tir.

Adran 2 - Pŵer awdurdod lleol i ymfael mewn ceffylau

3. Mae pŵer gan awdurdod lleol i ymfael mewn ceffyl a chadw ceffyl sydd ar unrhyw briffordd, neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdano. Mae gan yr awdurdod lleol y pŵer hwn hefyd os yw ceffyl ar dir arall yn ardal yr awdurdod lleol heb ganiatâd meddiannydd y tir hwnnw, ar yr amod bod y meddiannydd yn caniatáu i'r awdurdod lleol ymfael yn y ceffyl a'i gadw. Cyn y caiff yr awdurdod lleol ddefnyddio'r pwerau hyn, rhaid bod ganddo sail resymol i gredu bod y ceffyl ar y tir heb awdurdod cyfreithlon.

Adran 3 - Hysbysiadau ynghylch ymfael etc.

4. Gwneir yn ofynnol bod awdurdod lleol, o fewn 24 awr ar ôl ymfael mewn ceffyl o dan adran 2, yn gosod hysbysiad ysgrifenedig yn y man yr ymfaelwyd yn y ceffyl, neu gerllaw'r man hwnnw, yn datgan y dyddiad a'r amser yr ymfaelwyd ynddo ac yn rhoi manylion sut y gellir cysylltu â'r awdurdod lleol. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd, o fewn 24 awr ar ôl ymfael mewn ceffyl, roi hysbysiad ysgrifenedig i gwnstabl (er mwyn rhoi gwybod i'r heddlu lleol am y modd y gweithredodd) ac i unrhyw berson sy'n ymddangos ei fod yn berchennog y ceffyl neu'n gweithredu ar ran perchennog y ceffyl.
5. Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ganfod pwy yw perchennog y ceffyl cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ymfael yn y ceffyl. Os yw'r awdurdod lleol, o fewn 7 niwrnod ar ôl ymfael mewn ceffyl o dan adran 2, yn darganfod mai person na roddwyd hysbysiad ysgrifenedig iddo o dan y Ddeddf yw perchennog y ceffyl, rhaid i'r awdurdod lleol, o fewn 24 awr, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person hwnnw. Os dyroddir hysbysiad yn yr amgylchiadau hyn (h.y. hysbysiad a roddir o dan adran 3(4)), mae'r cyfnod o 7 niwrnod yn cychwyn gyda dyddiad yr hysbysiad hwnnw.

CONTROL OF HORSES (WALES) ACT 2014

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Control of Horses (Wales) Act 2014 which was passed by the National Assembly for Wales on 10 December 2013 and received Royal Assent on 27 January 2014. They have been prepared by the Department for Sustainable Futures of the Welsh Government to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 1 – Overview

2. This section summarises what the Act permits local authorities to do when horses are without lawful authority in public places or other land without the consent of the occupier.

Section 2 – Power of local authority to seize horses

3. A local authority has the power to seize and impound a horse which is on the highway or any other public place the local authority has responsibility for. It also has this power if a horse is on other land in its area without the consent of the occupier of that land, as long as the occupier agrees to the local authority seizing and impounding it. The local authority must have reasonable grounds to believe the horse is on the land without lawful authority before it can use these powers.

Section 3 – Notices about seizure etc.

4. The local authority is required to post a written notice within 24 hours of seizing a horse under section 2, at or near the place where the horse was seized stating the date and time it was seized and detailing how contact may be made with the local authority. It must also within 24 hours of seizing a horse, give written notices to a constable (to inform the local police force of its actions) and to any person who appears to be the owner or a person acting on behalf of the owner of the horse.
5. The local authority must take reasonable steps to establish the identity of the owner of the horse as soon as reasonably practicable following its seizure. If, within 7 days of seizing a horse under section 2, the local authority ascertains that a person who has not already been given written notice under the Act, is the owner of the horse, the local authority must within 24 hours, give a written notice to that person. If a notice is issued in these circumstances (i.e. notice given under section 3(4)), the 7 days period recommences from the date of this notice.

6. Rhaid dyddio hysbysiadau o dan adrannau 3(3) a 3(4) a rhaid iddynt gynnwys disgrifiad o'r ceffyl a'r dyddiad, yr amser a'r man yr ymafaelwyd ynndo, ynghyd â manylion sut y gellir cysylltu â'r awdurdod lleol.
7. Rhaid i hysbysiad i berson y credir ei fod yn berchennog ceffyl, neu'n gweithredu ar ran y perchennog, ddatgan hefyd pam y mae'r awdurdod lleol yn credu bod y person hwnnw naill ai'n berchennog y ceffyl neu'n gweithredu ar ran y perchennog. Rhaid i'r hysbysiad ddatgan effaith gweithredu adran 5 (gwaredu ceffylau sydd wedi eu cadw), gan gynnwys y dyddiad y bydd y pwerau o dan adran 5 (3) yn dod ar gael i werthu'r ceffyl neu ei waredu fel arall (gan gynnwys trefnu i'w ddifa). Rhaid i hysbysiad a ddyroddir i gwnstabl ddatgan hefyd i bwy arall y dyroddwyd hysbysiad.

Adran 4 - Costau ymafael etc.

8. Y perchennog sy'n atebol i dalu i'r awdurdod lleol unrhyw gostau a dynnir yn rhesymol wrth ymafael yn y ceffyl a'i gadw ac wrth ei fwydo a'i gynnal tra bo'n cael ei gadw. Nid yw'n ofynnol o dan y Ddeddf i awdurdod lleol ddychwelyd y ceffyl hyd nes y bydd y costau a dynnwyd yn y modd hwnnw wedi eu talu. Mae'r gyfraith gyffredinol yn gwneud yn ofynnol gofalu am y ceffyl tra bo'r ceffyl o dan reolaeth yr awdurdod lleol.
9. Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i'r perchennog o'r swm y mae'r perchennog yn atebol i'w dalu, ym marn yr awdurdod lleol, ynghyd ag esboniad sut y pennwyd y swm hwnnw.
10. Rhaid i'r hysbysiad hwnnw roi gwybod i'r perchennog hefyd fod hawl ganddo i gyfeirio unrhyw anghydfod ynghylch costau a hawlir gan yr awdurdod lleol at Weinidogion Cymru, a rhoi gwybod i'r perchennog sut i arfer yr hawl honno.

Adran 5- Gwaredu ceffylau sydd wedi eu cadw

11. Mae adran 5 yn rhoi pwerau i'r awdurdod lleol werthu'r ceffyl, neu ei waredu fel arall, gan gynnwys gwneud trefniadau i'w ddifa. Rhaid cyflawni'r difa yn y modd mwyaf trugarog a di-boen sy'n bosibl. Mae'r adran hon yn gymwys yn ddarostyngedig i adran 7 (datrys anghydfodau am symiau taladwy).
12. Bydd darpariaethau'r adran hon yn gymwys os nad oes neb, ar ôl y cyfnod o 7 niwrnod sy'n cychwyn naill ai gyda'r dyddiad y gosodir hysbysiad o dan adran 3(1) neu y rhoddir hysbysiad o dan is-adran (4), wedi hysbysu'r awdurdod lleol naill ai mai ef yw perchennog y ceffyl neu ei fod yn gweithredu ar ran y perchennog. Bydd adran 5 yn gymwys hefyd, yn ddarostyngedig i adran 7, os yw'r perchennog wedi cysylltu â'r awdurdod lleol ond naill ai heb gydymffurfio ag adran 4(1) neu wedi cael hysbysiad o dan adran 4(3) ynghlŷn â'i atebolrwydd am gostau a heb dalu'r costau hynny ymhen 7 niwrnod at ôl cael yr hysbysiad hwnnw.
13. Caiff yr awdurdod lleol adennill hefyd unrhyw gostau a dynnir ganddo mewn perthynas ag unrhyw drefniadau ar gyfer gwaredu neu ddifa'r ceffyl o dan yr adran hon. Mae'r adran hon hefyd yn darparu, pan nad oes unrhyw enillion yn codi o waredu'r ceffyl, y caiff yr awdurdod lleol geisio adennill ei gostau wrth waredu'r ceffyl oddi ar y perchennog. Os oes enillion yn deillio o waredu'r ceffyl, ond y costau a dynnir gan yr awdurdod lleol yn fwy na swm yr enillion hynny, mae'r perchennog

6. The notices given under sections 3(3) and 3(4) must be dated and include a description of the horse, and the date, time and place at which the horse was seized together with contact details of the local authority.
7. A notice to a person believed to be, or to be acting on behalf of, the owner of a horse must also state why the local authority believes that person to be either the owner of the horse or a person acting on behalf of the owner. The notice must set out the effect of the operation of section 5 (disposal of impounded horses) including the date on which the powers under, section 5 (3) to sell, or otherwise dispose of, the horse (including arranging for its destruction) will become available. A notice issued to a constable must also state who else has been served with a notice.

Section 4 – Costs of seizure etc.

8. The owner is liable to pay the local authority any costs reasonably incurred in the seizure and impounding of the horse and in feeding and maintaining it while it has been impounded. The Act does not require the local authority to return the horse until such costs incurred are paid. General law requires the horse to be looked after while under local authority care.
9. The local authority must give notice to the owner of the amount it considers the owner is liable to pay with an explanation of how the amount has been determined.
10. That notice must also inform the owner that they have a right to refer a dispute as to the costs claimed by the local authority to the Welsh Ministers and to inform them how they may exercise that right.

Section 5- Disposal of impounded horses

11. Section 5 provides powers for the local authority to sell or otherwise dispose of the horse, including arranging for its destruction. Destruction will be carried out in as humane a manner as possible. This section applies subject to section 7 (Resolution of disputes about amounts payable).
12. The provisions in this section will apply if after the period of 7 days beginning either on the date that a notice is placed under section 3(1) or given under subsection (4), no person has notified the local authority that they are either the owner of the horse or acting on behalf of the owner of the horse. Section 5 will also apply subject to section 7, if the owner has contacted the local authority but has either not complied with section 4(1) or has been given notice under section 4(3) about their liability for costs and has not paid those costs 7 days from receiving that notice.
13. The local authority may also recover any costs it may incur in relation to any arrangements for the disposal or destruction of the horse under this section. This section also provides that where there are no proceeds arising from the disposal of the horse, the local authority may seek to obtain its costs of disposal from the owner. Where there are proceeds arising from the disposal of the horse, but the costs incurred by the local authority exceeds the amount of those proceeds, the owner is liable to pay the local authority the amount of that excess.

yn atebol i dalu i'r awdurdod lleol swm y gwahaniaeth rhwng yr enillion hynny a'r costau hynny.

14. Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i'r perchennog sy'n datgan y swm sy'n daladwy, ym marn yr awdurdod lleol, gan y perchennog mewn cysylltiad â gwaredu'r ceffyl, ynghyd ag esboniad sut y pennwyd y swm hwnnw.
15. Yn yr hysbysiad hwnnw hefyd, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r perchennog fod hawl ganddo i gyfeirio unrhyw anghydfod ynghylch y costau a hawlir gan yr awdurdod lleol at Weinidogion Cymru, a sut i arfer yr hawl honno.
16. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud yn ofynnol bod yr awdurdod lleol yn talu i berchennog y ceffyl swm unrhyw enillion sy'n codi o'r gwaredu dros ben swm y costau a dynnwyd gan yr awdurdod lleol mewn cysylltiad â'r gwaredu; ond ni fydd yw'n ofynnol bod yr awdurdod lleol yn gwneud ad-daliad i unrhyw berson arall os yw eisoes wedi gwneud taliad i berson y credai'r awdurdod lleol yn rhesymol mai hwnnw oedd perchennog y ceffyl.

Adran 6 - Cofnod o'r ceffylau yr ymdriniwyd â hwy

17. Mae'n ofynnol o dan yr adran hon bod yr awdurdod lleol yn cadw cofrestr o'r holl geffylau yr ymafaelwyd ynddynt o dan adran 2 o'r Ddeddf, a bod y gofrestr honno'n cynnwys disgrifiad byr o'r ceffyl, datganiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r man yr ymafaelwyd ynddo, datganiad ynghylch pryd y cafodd ei gadw, a manylion y camau a gymerwyd i ddarganfod pwy yw ei berchennog. Yn ychwanegol, os gwaredwyd y ceffyl, y manylion â'r modd y'i gwaredwyd o dan adran 5. Rhaid i'r gofrestr fod yn agored i'r cyhoedd ei gweld (naill ai'n bersonol neu ar y rhyngwyd) ar bob adeg resymol.

Adran 7 - Datrys anghydfodau am symiau taladwy

18. Mae'r adran hon yn gymwys pan fo perchennog ceffyl yn herio'r swm y mae'r awdurdod lleol yn honni bod y perchennog yn atebol i'w dalu i'r awdurdod lleol o dan adran 4(1) neu 5(4); neu'r swm sy'n daladwy gan yr awdurdod lleol i berchennog y ceffyl o dan adran 5(5).
19. Caiff perchennog y ceffyl, o fewn 7 niwrnod ar ôl cael hysbysiad o dan adran 4(3) neu 5(7), gyfeirio'r anghydfod i'w ddatrys gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r perchennog, yn yr hysbysiad hwnnw i Weinidogion Cymru, roi datganiad o'r rhesymau dros herio'r swm a hawlir neu'r swm sy'n daladwy iddo, yn ôl fel y digwydd. Rhaid i Weinidogion Cymru anfon unrhyw hysbysiad o'r fath ymlaen at yr awdurdod lleol perthnasol, a chânt wneud yn ofynnol bod yr awdurdod lleol yn darparu iddynt unrhyw wybodaeth a all, yn eu barn hwy, eu cynorthwyo i ddatrys yr anghydfod. Caiff yr awdurdod lleol perthnasol hefyd gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru o fewn 7 niwrnod ar ôl cael gan Weinidogion Cymru yr hysbysiad o'r atgyfeiriad gan y perchennog.
20. Rhaid i Weinidogion Cymru ddatrys yr anghydfod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol o dan yr holl amgylchiadau.
21. Pan fo'r anghydfod yn ymwneud ag adran 4(1), ni chaiff yr awdurdod waredu'r ceffyl cyn bo'r anghydfod wedi ei ddatrys.

14. The local authority must give notice to the owner of the amount it considers the owner is liable to pay in connection with the disposal of the horse with an explanation of how the amount has been determined.
15. In that notice the local authority must also advise the owner that they have a right to refer a dispute to the Welsh Ministers, as to the costs claimed by the local authority and how to exercise that right.
16. This section also provides that the local authority is required to pay the owner of the horse any proceeds arising from the disposal of the horse where the proceeds exceed the amount of the costs incurred by the local authority; but if a local authority has previously made a payment to a person it reasonably believes to be the owner it is not required to repay any other person.

Section 6 – Record of horses dealt with

17. The local authority is required under this section to keep a register of all horses seized under section 2 of the Act and that register must contain a brief description of the horse, a statement of the date, time and place at which the horse was seized and when it was impounded and details of the steps taken to establish the owner. In addition if the horse has been disposed of, the details and manner in which the horse was disposed of under section 5. The register must be open to inspection by members of the public (either in person or on the internet) at all reasonable times.

Section 7 – Resolution of disputes about amounts payable

18. This section applies where the owner of a horse disputes the amount the local authority claims they are liable to pay to them under section 4(1) or 5(4); or the amount payable to the owner by the local authority under section 5(5).
19. The owner of the horse may, within 7 days of receiving a notice under section 4(3) or 5(7), refer the dispute to the Welsh Ministers for resolution. The owner must give, in that notice to the Welsh Ministers, a statement of the reasons for disputing the amount claimed. The Welsh Ministers must forward any such notice to the local authority concerned and they may require that local authority to provide them with any information which they consider may assist them in resolving the dispute. The local authority concerned may also make representation to the Welsh Ministers within 7 days of receiving notice from the Welsh Ministers, of the referral by the owner.
20. The Welsh Ministers must resolve the dispute as soon as is reasonably practicable in all the circumstances.
21. If the dispute is in relation to section 4(1), the local authority may not dispose of the horse until the dispute is resolved.

Adran 8 - Diddymiadau canlyniadol

22. Mae'r adran hon yn pennu'r darpariaethau perthnasol, a gynhwysir yn y tair Deddf leol, a fydd yn peidio â chael effaith oherwydd na fydd eu hangen pan ddaw'r Ddeddf hon i rym. Mae'r diddymiadau hyn fel a ganlyn:
- (a) adran 29 o Ddeddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984 (p. xv);
 - (b) yn adran 15(8) o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 (p.vii), y geiriau "horses (including ponies, mules, jennets)," ac
 - (c) yn adran 35(7) o ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 (c.viii), y gair "horses".

Adran 9 - Dehongli

23. Mae'r adran hon yn pennu'r diffiniadau o "awdurdod lleol" a "ceffyl" yn y Ddeddf hon.

Adran 10 - Cychwyn ac enw byr

24. Mae'r adran hon yn cadarnhau pa bryd y daw'r Ddeddf i rym ac yn pennu mai enw'r Ddeddf yw 'Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014'.

COFNOD O'R TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

25. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o daith y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod o'r Trafodion a gwybodaeth bellach am daith y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:
<http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IID=7815>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwyno	14 Hydref 2013
Cyfnod 1 - Dadl	22 Hydref 2013
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried gwelliannau	14 Tachwedd 2013
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried gwelliannau	10 Rhagfyr 2013
Cyfnod 4 Cymeradwyo gan y Cynulliad	10 Rhagfyr 2013
Cydsyniad Brenhinol	27 Ionawr 2014

Section 8 – Consequential repeals

22. This section sets out the relevant provisions contained in the three local Acts which cease to have effect as they will be unnecessary as a result of the coming into force of this Act. These repeals are as follows:

- (a) section 29 of the Cardiff City Council Act 1984 (c.xv);
- (b) in section 15(8) of the Mid Glamorgan County Council Act 1987 (c.vii), the words “horses (including ponies, mules, jennets),”; and
- (c) in section 35(7) of the West Glamorgan Act 1987 (c.viii), the word “horses”.

Section 9 – Interpretation

23. This section sets out the definitions for a “horse” and a “local authority” within this Act.

Section 10 – Commencement and short title

24. This section confirms when the Act comes into force and establishes the Act’s title as the ‘Control of Horses (Wales) Act 2014’.

RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

25. The following table sets out the dates for each stage of the Act’s passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales’ website at: <http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IIId=7815>

Stage	Date
Introduced	14 October 2013
Stage 1 – Debate	22 October 2013
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	14 November 2013
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	10 December 2013
Stage 4 Approved by the Assembly	10 December 2013
Royal Assent	27 January 2014

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

Archebu trwy Linell Seneddol ar Lo-Call 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0870 240 3701

Y Llyfrfa

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: bookshop@parliament.uk

Rhyngwrwyd: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

General enquiries: 0870 600 5522

Order through the Parliamentary Hotline Lo-call 0845 7 023474

Fax orders: 0870 600 5533

Email: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop

12 Bridge Street, Parliament Square

London SW1A 2JX

Telephone orders: 020 7219 3890

General enquiries: 020 7219 3890

Fax orders: 020 7219 3866

Email: bookshop@parliament.uk

Internet: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-10904-7



9 780348 109047